



# Diogelwch Ffyrdd Cymru Road Safety Wales

## Low Down

## Ffilm Realiti Rhithwir y BHS

Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS) wedi lansio ffilm realiti rhithwir newydd i godi ymwybyddiaeth o'r materion diogelwch sy'n wynebu marchogion ar y ffyrdd.

Nod y ffilm, sy'n rhan o ymgyrch y Gymdeithas, Dead Slow, yw rhoi profiad uniongyrchol i yrwyr o sut mae'n teimlo i fod yn farchog ar gefn ceffyl pan fydd car yn pasio'n rhy gyflym neu'n rhy agos.

Mae'r ffilm yn dangos hefyd yr hyn y mae gyrwyr yn ei brofi wrth nesáu at geffyl mewn cerbyd sy'n mynd yn rhy gyflym. Yn yr olygfa olaf mae'r gwylwyr mewn car gyda chyflwynydd chwaraeon y BBC, Lizzie Greenwood-Hughes, sy'n esbonio sut i basio ceffyl yn ddiogel.

Mae gwefan Damweiniau Ceffylau y BHS yn dangos bod yna 2,902 o ddamweiniau ffyrdd yn cynnwys ceffylau rhwng Tachwedd 2010 a Mawrth 2018 – yn amrywio o'r rhai a fu bron â digwydd i wrthdrawiadau.

Ers lansio ymgyrch Dead Slow yn 2016, mae'r BHS wedi bod yn gweithio gyda llawer o sefydliadau i addysgu gyrwyr ar sut i basio ceffylau'n ddiogel, gan gynnwys llawer yng Nghymru. Yn ddiweddar, rhoddodd Alan Hiscox, Cyfarwyddwr Diogelwch y BHS gyflwyniad grymus a llawn emosiwn yn ystod Cynhadledd Diogelwch Ffyrdd Cymru. Yn ystod y cyflwyniad, dywedodd: "Rydyn ni'n credu ein bod yn gallu dweud wrth yrwyr am sut i ymddwyn o gwmpas ceffylau a'u bod yn anghofio; gallwn ddangos ac maen nhw'n cofio – ond os cân nhw eu cynnwys yn ein ffilm VR fe fyddan nhw'n deal."

Ailadroddodd hefyd bedair neges yr ymgyrch Dead Slow, sydd wedi'u bwriadu i ddylanwadu ar yrwyr a newid eu hymddygiad o gwmpas ceffylau:

- Arafwch i 15mya fan bellaf
- Byddwch yn amyneddgar
- Ewch heibio'r ceffyl yn llydan ac yn araf, gan adael o leiaf lled y car
- Gyrrwch i ffwrdd yn araf


Gallwch weld y ffilm [yma](#).

### YN Y RHIFYN HWN:

Diogelwch Ceffylau  
Ymgyrch Close Pass  
Damweiniau Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu  
Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid  
Cyngor ar Seddi Car i Blant  
Ymwybyddiaeth Cyflymder  
Marwolaethau ar Ffyrdd yr UE



## Ymgyrch Close Pass



Nod Ymgyrch Close Pass yw gwella diogelwch beicwyr ar y ffyrdd drwy addysgu gyrwyr am y ffordd ddiogel o oddiweddyd.

Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn awgrymu y dylai defnyddwyr ffyrdd roi'r un faint o le i ddefnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed, megis beicwyr modur, beicwyr a marchogion ag y byddent yn ei roi wrth oddiweddyd car – tua 1.5m fel arfer.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jennifer Gilmer, "Mae diogelu defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed yn hollbwysig i heddluoedd ledled y wlad.

"Mae Ymgyrch Close Pass yn tynnu sylw at y sefyllfa beryglus y mae llawer o feicwyr yn ei hwynebu ac yn dangos yr hyn sy'n digwydd i yrwyr pan na fyddant yn gadael digon o le wrth oddiweddyd ac yn gyrru'n beryglus."

Dywedodd Ysgrifennydd yr Economi a Thrafnidiaeth Ken Skates, "Ni allaf ganmol y cynllun hwn ddigon. Yn groes i'r hyn a gredir yn gyffredinol, mae'r mwyafrif helaeth o ddamweiniau i feicwyr yn digwydd pan fyddant yn beicio'n hamddenol yn hytrach nag wrth wneud symudiadau cymhleth. Mae angen i ni ddod o hyd i ffordd o ddiogelu'r bobl hynny sydd wedi penderfynu byw bywyd mwy iach, heini a chynaliadwy, ynghyd â'r rheini sy'n mwynhau beicio fel hobi.

"Rwy'n cefnogi ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd sy'n sicrhau bod teithio drwy gadw'n heini yn ddewis realistig a diogel. Mae angen i'r holl ddefnyddwyr ffyrdd fod yn ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud i gadw pawb yn ddiogel fel rhan o'u taith ddyddiol."

Mae Ymgyrch Close Pass yn defnyddio swyddogion yr heddlu ar feiciau â chamêrau er mwyn cofnodi ymddygiad y gyrwyr sy'n eu goddiweddyd. Os caiff trosedd ei nodi, bydd y swyddog yn cysylltu â'i gydweithwyr ymhellach i lawr y ffordd dros y radio er mwyn cyfeirio'r cerbyd at fan archwilio lle y cynigir y cyfle i'r gyrrwr dderbyn addysg oddi ar y ffordd gan gydweithwyr yn y gwasanaeth tân gan ddefnyddio offer a ddyluniwyd yn arbennig i ddangos y pellter y dylid ei ganiatáu wrth oddiweddyd.

Dywedodd Huw Jakeway, Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, "Fel rhan o'n gwaith, byddwn yn darparu addysg i ddefnyddwyr ffyrdd y gwelwyd eu bod wedi goddiweddyd defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed, megis beicwyr a marchogion, mewn ffordd beryglus. Rydym yn gobeithio newid ymddygiadau ac agweddau o fewn ein cymunedau gyrru i alluogi pawb sy'n defnyddio'r ffyrdd wneud hynny'n ddiogel gyda'i gilydd."

Dywedodd Teresa Ciano, Rheolwr Partneriaeth Gan Bwyll, "Mae gwaith partneriaeth amlasiantaethol yn allweddol er mwyn creu ffyrdd mwy diogel a newid ymddygiad gyrwyr. Mae heddluoedd ledled Cymru yn ymrwymedig i gadw defnyddwyr ffyrdd yn ddiogel a lleihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu'n ddifrifol neu eu lladd mewn damweiniau."

## Damweiniau Ffyrdd Wedi'u Cofnodi Gan Yr Heddlu, 2017

Gwybodaeth am ddifrifoldeb yr anafiadau a'r math o ddefnyddiwr ffordd. Pwyntiau allweddol:

- Yn ystod 2017 roedd 4,556 o ddamweiniau ffyrdd yn ymwneud â anaf personol a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru, sef gostyngiad o 365 o'i gymharu â 2016 (7.4 y cant yn llai)
- O ganlyniad i'r damweiniau yma, cafwyd 6,202 o anafiadau, sef 651 yn llai nac yn 2016.


O fewn y 6,202 anafiadau:

- Cafodd 103 o bobl eu lladd ar ffyrdd Cymraeg, ac roedd yr un peth ac yn 2016.
- Cafodd 961 o bobl eu hanafu'n ddifrifol, sef 44 yn llai (4.4 y cant) nac yn 2016.
- Cafodd 5,138 o bobl eu hanafu ychydig, sef gostyngiad o 607 (10.6 y cant) o'i gymharu â 2016.



Darllenwch yr adroddiad [yma](#).

# Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid



Cafodd Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid ei chynnal rhwng 24 a 30 Medi 2018, gan geisio hybu pwysigrwydd iechyd y llygaid a'r angen i gael prawf llygaid yn rheolaidd.

Mae golwg dda yn hanfodol wrth ichi ddefnyddio'r ffordd, waeth beth fo'ch oedran. Rhaid i yrwyr a beicwyr modur allu darllen plât cofrestru cerbyd o bellter o 20 metr (neu 20.5 metr os cafodd y cerbyd ei gofrestru cyn Medi 2001) gan wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd os oes eu hangen.

Os ydych yn ei chael yn anodd darllen arwyddion ffordd, yn enwedig y rhai â thestun arnynt, gallai hynny fod yn arwydd bod eich golwg wedi dirywio ac y gall fod angen lensys i gywiro'ch golwg. Os ydych yn ei chael yn anos gweld yn glir yn y tywyllwch, fe allai hynny hefyd olygu bod angen ichi wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd.

Er bod golwg yn aml yn dirywio wrth inni fynd yn hŷn, gall anhwylderau'r llygaid ddatblygu unrhyw bryd. Mae glawcoma a phlenni ar y llygaid yn adnabyddus ond o'u gadael heb eu trin, gall clefydau eraill sy'n gysylltiedig ag oedran effeithio ar eich gallu i ddefnyddio'r ffordd yn ddiogel hefyd. Yn ystod prawf llygaid, gallai anhwylderau iechyd eraill sy'n ddiarwybod ichi hyd yn hyn, megis diabetes neu bwysedd gwaed uchel, gael eu canfod hefyd – a dyna reswm arall dros gael profion yn rheolaidd.

Dyweddodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru: "Rydyn ni'n argymhell cael prawf ar eich llygaid bob dwy flynedd, neu'n amlach os bydd eich optegydd yn awgrymu hynny. Gall hyn nid yn unig helpu i sicrhau eich bod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer gyrru neu reidio, ond canfod anhwylderau'n gynnar hefyd cyn iddyn nhw ddatblygu. Dylech wybod eich bod yn gallu wynebu dirwy o hyd at £1000 os byddwch yn gyrru a'ch golwg o dan y safon gyfreithiol sy'n ofynnol.

"Rhoddodd Diogelwch Ffyrdd Cymru gefnogaeth i Wythnos Genedlaethol Iechyd Llygaid drwy eu gwefan a'u sianeli yn y cyfryngau cymdeithasol, gan atgoffa pobl mor bwysig yw cael prawf llygaid yn rheolaidd a'u hatgoffa am anhwylderau cyffredin a allai gyfaddawdu diogelwch pawb sy'n defnyddio'r ffordd."

## Cyngor yn y Car i Rieni a Gofalwyr

Gall dewis a gosod y sedd gywir yn y car i blentyn greu llawer o ddryswch, yn enwedig o gofio'r ystod eang o fathau gwahanol o seddau ar y farchnad.

I helpu rhieni a gofalwyr i ddewis y sedd sy'n ateb pwysau a thaldra'r plentyn, gan osgoi'r problemau ffitio mwyaf cyffredin, mae RoSPA wedi cynhyrchu 16 o ffilmiau byr.

Does dim angen gwyllo pob un, dim ond clicio ar deitl y rhai sy'n cyfateb i'ch amgylchiadau personol chi.

I weld y ffilmiau cliciwch [yma](#).

### Child Car Seat Films

These short films will help you select a seat that matches your child weight and height. You do not need to watch them all. Just click the title of the one(s) that match your personal circumstances.

<b>Introduction</b> What do I need to know about child car seats? Is the child car seat I'm buying safe and legal? What methods are there for fitting child car seats into my vehicle?	<b>Types of seat</b> Which type of R44 car seat does my child need? Which type of iSize car seat does my child need?	<b>Rear facing seats</b> What do I need to know about rear facing child car seats? How do I fit rear facing ISOFIX child car seats? How do I fit rear facing child car seats with a seat belt?

## Effeithiolrwydd Cyrsiau Ymwybyddiaeth Cyflymder



Mae ymchwil newydd a gyhoeddwyd gan yr Adran Trafnidiaeth yn dangos bod gyrwyr sy'n dilyn cwrs ymwybyddiaeth cyflymder gymaint â 23% yn llai tebygol o aildroseddu yn y chwe mis ar ôl eu trosedd cyntaf, o'u cymharu â'r rhai sy'n derbyn y ddirwy a'r pwyntiau.

Defnyddiodd yr astudiaeth gan IPSOS Mori a Phrifysgol Leeds ddata am droseddau goryrru a roddwyd gan 13 o heddluoedd yn Lloegr am y cyfnod rhwng 2012 a 2017. Cafwyd data am 2.2m o yrwyr, yr oedd 1.4m ohonynt wedi dewis cymryd rhan yn y Cwrs Cenedlaethol Ymwybyddiaeth Cyflymder (NSAC).

Gwelodd yr astudiaeth fod gyrwyr a ddilynai'r NSAC 12-23% yn llai tebyg o aildroseddu o fewn chwe mis ar ôl cyflawni eu trosedd cyntaf – sef ffigur sy'n syrthio i 9-17% o fewn 12 mis, 9-11% o fewn y ddwy flynedd cyntaf, a 6-13% o fewn tair blynedd.

Darllenwch yr adroddiad [yma](#).

## Fawr o Welliant o ran Marwolaethau ar Ffyrdd yr UE am y Bedwaredd Flwyddyn o'r Bron



Mae'r Deyrnas Unedig yn methu gwneud cynnydd digonol yn ei hymgais i gyrraedd targed yr UE o haneru nifer y marwolaethau ar y ffyrdd yn y degawd hyd at 2020, yn ôl argraffiad diweddaraf adroddiad blynyddol.

Mae'r 12fed Adroddiad ar Fynegeion Dangosyddion Perfformiad, gan Gyngor Diogelwch Trafnidiaeth Ewrop (ETSC), yn cymharu'r ystadegau o 32 o wledydd yn Ewrop, gan gynnwys yr 28 o aelod-wladwriaethau'r UE.

Mae gostyngiad y Deyrnas Unedig o 6.4% ers 2010 yn llawer is na chyfartaledd yr UE o 20.1%, gan osod y Deyrnas Unedig bedwar safle o'r gwaelod, o flaen Sweden, yr Iseldiroedd a Malta.

Er hyn, y Deyrnas Unedig oedd y drydedd wlad fwyaf diogel yn yr UE o hyd yn 2017, ar ôl Norwy a Sweden, gyda 27 o farwolaethau am bob miliwn o drigolion.

Drwyddi draw, mae'r adroddiad yn dweud bod y cynnydd wedi aros yn ei unfan ledled yr UE ers pedair blynedd, gyda gostyngiad o 3% yn unig yn nifer y marwolaethau ar y ffyrdd ers 2013. Bellach mae'r ETSC yn galw am ewyllys wleidyddol gref, mesurau brys a buddsoddi sylweddol mewn seilwaith diogel i leihau'r 500 o farwolaethau a geir ar ffyrdd yr UE bob wythnos.

Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).

